| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024** |
| | Cystadleuaeth 151 - PERFFORMIAD THEATRIG O SGRIPT Blwyddyn 7, 8, 9 |
| | **'MIS YR ŶD' gan MANON STEFFAN ROS**<br>addasiad Carys Edwards |

**Cefndir: Mae Dad yn cynghorydd yn ardal Glannant ac yn gwylltio'n rhwydd am bethau sy'n codi yn y dref. Mae wedi penderfynnu cynnal cyfarfod cyngor yn ei dŷ- ond nid yw'r teulu yn cael trafod y cyfarfodydd hyn. Mae rhywbeth yn y cyfarfod wedi gwylltio Dad.**

*Gellir newid rhyw ac enwau'r cymeriadau a'r dafodiaith. Pwysleisir mai props syml sydd eu hangen ar gyfer y perfformiad.*

CYMERIADAU:
Mam
Tom
Dad
Joni

LLEOLIAD: Cartref Tom / Traeth

**MAE MAM YN SEFYLL YN EDRYCH GYDA'I CHLYST YN ERBYN DRWS DDYCHMYGOL. DAW TOM ATI.**

TOM: Mam, 'da chi 'di gweld fy nghrys glas i?

**MAM HEB SYMUD.**

MAM: Shhhhhh!
TOM: Be sy'n bod?
MAM: Dy dad yn cynnal un o'i gyfarfodydd eto.
TOM: O na! Ydy oriau agor y ganolfan hamdden wedi newid eto?
MAM: Dwi ddim yn siwr- ond mae dy dad ar gefn ei geffyl go iawn 'tro ma!
TOM: Gymaint ag oedd o efo'r biniau baw ci?
MAM: Gwaeth, llawer gwaeth!
TOM: Go iawn? Roedd pawb yn yr ysgol yn gwneud hwyl am fy mhen i, yn dweud bod gan Dad obsesiwn efo baw ci a ballu, ac er 'mod i'n deall ei bod hi'n boen cael llai o finiau, dwi dal ddim yn deall sut gall Dad mynd mor ofnadwy o flin am y peth!
MAM: Sh! Mae rhywun yn dod.

**MAM A TOM YN SYMUD I FFWRDD O'R DRWS DYCHMYGOL. DAW DAD I MEWN YN WYLLT AR EI FFÔN SYMUOL.**

DAD: (Yn siarad ar y ffôn) Ie, Ie, hen fusnes ofnadwy. Fe sortia i o,
ie, ie, peidiwch â phoeni. Ta ra, Ta ra.

**SYMUD AT TOM A MAM. YN AMLWG YN FLIN IAWN**.

DAD: Mona! Mae angen paned arnom- brysia nei di!
MAM: Dim problem- a fi mewn i holi be mae pawb eisiau. (**WRTH ADAEL Y LLWYFAN)**
Helo, paned rhywun? Glasiad bach o rywbeth?

**DAD YN EDRYCH AR TOM AC YN EI SIARSIO I FYND ALLAN AT EI FFRINDIAU GAN I BOD HI'N WYLIAU HAF YN LLE EISTEDD O GWMPAS YN Y TŶ.**

DAD: Be ti'n neud adre? Lle mae dy ffrindiau di?
TOM: Prysur. Neu ar eu gwyliau.
DAD: Wel, mi ddylet tithau fod yn brysur hefyd!
TOM: Ond...
DAD: Cer i gael cawod a golchi dy wallt. Mae 'na oglau traed yma! Pam o'n i dy oedran di mi roeddwn i allan drwy'r dydd, doeddwn i byth yn eistedd o gwmpas y tŷ. Cer allan i'r awyr iach a phaid â dod yn ôl tan amser te.
TOM: Amser te?! Ond mae oriau tan hynny!
DAD: **(YN FLIN)** Oriau o hwyl i ti yn yr awyr agored 'ta!
TOM: Ond...
DAD: Cer!

**DAD YN GADAEL TOM AR BEN EI HUN.**

TOM: **YN ANNERCH Y GYNULLEIDFA AC YN CERDDED AC EISTEDD AR Y TRAETH.**
Petai dad ddim wedi fy ngyrru allan o'r tŷ y bore 'ma i gael awyr iach, fyddwn i ddim wedi mynd i lan y môr ac eistedd ar y traeth, a'i weld o'n sefyll yno. Fyddwn i ddim wedi cwrdd â Joni.

**JONI YN CASGLU CERRIG AR Y TRAETH AC YNA YN CODI EI BEN A SYLWEDDOLI BOD RHYWUN YN EI WYLIO. TOM YN TROI EI BEN YN SYDYN I FFWRDD, OND WRTH GILEDRYCH YN SYLWEDDOLI BOD JONI YN SEFYLL YN STOND YN SYLLU ARNO AC YNA CERDDED TUAG ATO.**

JONI: Wyt ti'n siarad Cymraeg?

**TOM YN NODIO**

JONI: Wyt ti eisiau helpu? Dwi'n sortio'r cerrig.

**TOM YN CODI A DILYN JONI GAN GODI CERRIG I WNEUD PENTWR. Y DDAU YN CASGLU CERRIG.**

JONI: Joni ydw i.

TOM: Tomos ydw i.

**JONI YN GWENU AR TOM A TOM YN GWENU NÔL. Y DDAU YN TEIMLO BRAIDD YN ANIFYR.**

TOM: Be wnei di efo'r cerrig?
JONI: O! Dim byd mawr. Gei di weld mewn munud. Ma gynnon ni ddigon o gerrig rwan I ddechrau arni.

**JONI YN DECHRAU GOSOD Y CERRIG MEWN PATRWM AR Y TYWOD.**

JONI: Dechreua di eu gosod gan ddilyn yr amlinell dwi'n ei greu.
TOM: Iawn.

**TOM YN GOSOD YN CERRIG ERAILL I LENWI'R AMLINELLIAD SY'N CAEL EI WNEUD GAN JONI.**
**TOM YN SYLWEDDOLI BETH MAE NHW WEDI EI GREU AR Y TRAETH.**

TOM: **(MEWN SYNODOD.)** Pysgodyn!
JONI: **(DAN WENU.)** Wel, rydan ni ar draeth tydan?
TOM: Mae o'n edrych yn anhygoel. Dwi ddim yn meddwl mod i wedi creu dim byd mor dlws erioed o'r blaen. Drycha, mae pobl ar y prom yn tynnu lluniau ohono. Lle wnes di ddysgu sut i wneud hynna? Rwy wedi byw yma  ar hyd fy oes ac erioed wedi gwneud y ffasiwn beth!
JONI: **(GAN EDRYCH YN SYN AR TOM.)** Wnes i ddim dysgu sut i wneud o, siŵr. Jest ... wedi gwneud o, dyna i gyd. Beth sy'n bwysig ydy cymryd dy amser. Penderfynu bod ar y traeth am oriau, a hel cannoedd o gerrig neu froc môr neu beth bynnag.
TOM: Ti'n treulio oriau ar y traeth ar dy ben dy hun? A ddim yn mynd yn bôrd?
JONI: Bôrd! Na, dwi byth yn bôrd.

**JONI YN EDRYCH YN HIR AR TOM A GWENU ARNO.**

JONI: Hei! Ti'n ffansïo diwrnod yn y goedwig fory?
TOM: Y goedwig?
JONI: Ia. Dens a ballu.
TOM: Ydan ni ddim braidd yn hen i hynny?
JONI: Wyt ti isio, Tom, neu ddim?
TOM: Yndw.
JONI: Fory amdani te.

**JONI YN GWENU AR TOM GAN WNEUD PUMP UCHEL, AC YNA'R DDAU YN CYCHWYN CERDDED I FFWRDD. TOM YN AROS EILIAD A THROI AT Y GYNULLEIDFA.**
**YN ANNERCH Y GYNULLEIDFA.**

TOM: Mae gen i ffrind newydd, mae o'n garedig ac yn ddigri ac yn wahanol i'r hogiau eraill, a dwi'n licio fy hun pan dwi hefo fo. Wnes i ddim gofyn i Joni am ei gefndir, ddim yn iawn – er ei fod o'n sôn am ei deulu a'i gartref, do'n i ddim yn ddigon dewr i ofyn...
JONI: **(YN GWEIDDI.)** Tom!
TOM: Dod rwan!

**TOM YN RHEDEG AR ÔL JONI**